ARTIST: FFLUR DAFYDD A'R BARF
ALBWM: BYD BACH
LABEL: RASAL
DYDDIAD RHYDDHAU: DYDD LLUN TACHWEDD 16eg

Byd bach Fflur Dafydd!

Fe fydd Fflur Dafydd, y gantores-gyfansoddwraig boblogaidd o Gaerfyrddin, yn rhyddhau ei thrydedd albym ar Dachwedd 16eg. Yn wahanol i'r ddwy albym gyntaf, mae "Byd Bach" yn albym cysyniadol sydd yn ymwneud â lleoliadau gwahanol yng Nghymru, ac sy'n cludo'r gwrandäwr ar daith o gwmpas y lleoliadau hynny sydd wedi dylanwadu ar fywyd a cherddoriaeth Fflur. Mae'r amrywiaeth o leoliadau yn eang dros ben, yn amrywio o lefydd arfordirol braf fel Aberaeron a Phorthgain, i dywyllwch dinesig Caerdydd, ac yna ar hyd lwybr cerddorol yr A470 at Ynys Môn a Mynydd Llandygai.

"Dwi wedi byw mewn nifer o lefydd gwahanol yng Nghymru," meddai Fflur. "Ac er ein bod weithiau'n gweld y ffaith ein bod yn byw mewn "Byd Bach" yn rhywbeth negyddol, ry'n ni'n lwcus, mewn ffordd, fod ganddon ni'r cyfle i ddod i nabod ein gwlad mor dda, ac i weld pob cornel ohoni, yn wahanol i bobl sy'n byw mewn gwledydd mawr. Dwi wastad yn teimlo 'mod i'n berson fwy crwn o fod wedi byw mewn gymaint o lefydd, ac mae'r albym yn rhyw fath o daith emosiynol imi trwy'r ardaloedd gwahanol sydd wedi fy ffurfio i fel person."

Wrth deithio o fan i fan trwy gyfrwng y caneuon, mae pob un lleoliad yn hawlio ei steil gerddorol unigryw ei hun, ac yn brawf o'r cydweithio egniol, creadigol sydd rhwng Fflur a'i band gwych, "Y Barf." Mae'r geiriau hefyd yn llawn hiwmor tywyll, swreal, ac yn llawn cymeriadau a chyfeiriadau difyr, gyda'r gân "Pobol Bach" er engraifft, yn ymateb chwareus i gân Randy Newman, "Short People." Mae'r caneuon yn sicr yn dangos crefft a gweledigaeth hynod Fflur fel artist, ac yn brawf o'i chyfraniad unigryw at gerddoriaeth gyfoes Gymraeg.

A hithau newydd ddychwelyd o gyfres o berfformiadau yn Iowa a Portland yn yr UDA, fe fydd Fflur yn hyrwyddo'r deunydd newydd mewn sawl gig yng Nghymru dros yr Gaeaf gyda'i band 'Y Barf'. Fe fydd hi hefyd yn ymddangos ar eitem arbennig ar y Sioe Gelf, a fydd yn bwrw golwg dros ei blwyddyn gelfyddydol-gynhyrchiol fel awdur a cherddor, wedi iddi ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y Daniel Owen eleni gyda'i nofel "Y Llyfrgell." Mae'r fideo o gân olaf yr albym, "Yr Ymylon" a gafodd ei ffilmio yn Iowa a'i gyfarwyddo gan y cyfarwyddwr o Bacistan, Azeem Sajjad, hefyd ar gael i'w wylio ar www.myspace.com/fflurdafydd

Os am wybodaeth pellach, cysylltwch gyda Guto Brychan; gutobrychan@me.com /07816664185
Gigs - Tachwedd 13ain: Clwb y Cwins Caerfyrddin, Lansiad yr albym, **Tachwedd 20:** Duke of Clarence, Caerdydd **Tachwedd 21ain:** Clwb Golff Caerfyrddin

Rasal, Llawr Cyntaf, Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd. LL54 5TG.
01286 831111
www.rasal.net / nerys@rasal.net

IT'S A SMALL WORLD

Byd Bach, released on November 16th, is the latest offering from the increasingly-popular Carmarthen-based artist, Fflur Dafydd. Unlike her first two albums, "Byd Bach" (Small World) is a concept album that takes the listener on a whistle-stop tour of the artist's favourite haunts in Wales, driving you through them at top speed, before you can even begin to strap on your seat belts. During the trip, you get to see a little bit of everywhere, namely Aberaeron, Porthgain, Penrhiwllan and Cardiff, before she charges back up the A470, paying visits to Anglesey and Llandygai Mountain.

"I've lived in so many different places in Wales," Fflur comments. "I know that as Welsh people we sometimes find living in a "Small World" a frustrating thing, but the advantage is that you actually get to know your own country, something a person in a bigger country, like America, would never be able to do. I think that living in all four corners of Wales has certainly shaped me as a person, and the album is a means of reliving that emotional journey, through the means of song."

There has certainly never been a Welsh album like it. As soon as we hear "Pobol Bach," Fflur's playful response to the Randy Newman song, "Short People," in which she introduces us to the "short" cast of her "Small World," or Abercuawg, an imaginary place referenced by the poet R.S. Thomas, we realise that we are in the hands of an unusual and gifted songwriter, who also knows how to vary the tone between the comical and the introspective, with the two more low-key songs on the album, "Y Llwybrau" and "Yr Ymylon" being beautiful, acoustically driven ballads which evoke a particular feeling of longing.

Certainly there is something on this album for everyone, and it once again showcases the unique partnership between Fflur and her excellent band, "Y Barf." Although is no one musical style which drives the album, with each location claiming its own particular musical style and flavour, we can certainly recognise the musical energy and strong, catchy melodies that have come to characterise Fflur Dafydd a'r Barf over the past three years, and have certainly been responsible for their broad appeal in Wales and beyond.

Having recently returned from a 6 week stint at Iowa University, where she was writer in residence, Fflur now embarks on a mini tour around Wales this winter to promote her album. She will also be giving a special interview on S4C's Sioe Gelf, detailing her prolific year as both an author and a musician, having also published her prize-winning novel, Y Llyfrgell (The Library) this year. The video of "Yr Ymylon," filmed in Iowa and directed by Azeem Sajjad from Pakistan, can be viewed now on her myspace, www.myspace.com/fflurdafydd

NOVEMBER 13TH: album launch, Quins Club Carmarthen, 9pm, November 20th: Duke of Clarence, Cardiff, 8pm November 21st: Golf Club, Carmarthen, 8pm

Rasal, Llawr Cyntaf, Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd. LL54 5TG.
01286 831111
www.rasal.net / nerys@rasal.net